# Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth (2024)

## 1 Nod a Disgwyliadau

1.1 Mae'r polisi ymddygiad hwn yn ystyrlon o ethos Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ynglŷn â Hawliau Plant, yn yr ystyr bod gan bob plentyn yr hawl i fod yn ddiogel a derbyn addysg.

1.2 Un o brif amcanion ein hysgol yw sicrhau bod pob aelod o gymuned ein hysgol yn teimlo yn ddiogel yn amgylchfyd yr ysgol. Anelwn i sicrhau bod pawb yn ein cymuned yn teimlo bod gwerth iddynt, eu bod yn cael eu parchu, a'u bod yn cael eu trin yn deg ac yn dda. Trwy osod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad ac ar berthnasoedd cadarnhaol, rydyn ni'n hybu gofal am ein gilydd ac yn ymddiried yn ein gilydd. Felly, mae polisi ymddygiad yr ysgol wedi ei gynllunio er mwyn hyrwyddo hawl pawb i fyw a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd ddiogel a chefnogol.

1.3 Mae gennym nifer o reolau fel ysgol, ond nid ein prif amcan yw creu system er mwyn gweithredu rheolau. Mae'r polisi ymddygiad wedi ei gynllunio er mwyn hybu perthnasoedd positif, fel bod pobl yn gallu gweithio gyda'i gilydd er mwyn cynorthwyo pawb i ddysgu. Mae'r polisi yma er mwyn annog pawb i weithio gyda'i gilydd mewn ffordd ystyrlon er mwyn cyfoethogi cymuned yr ysgol.

1.4 Yn aml mae newid yn ymddygiad plentyn yn ffordd o gyfleu nad yw rhywbeth yn iawn, er enghraifft efallai ei fod wedi profi digwyddiad trawmatig, newidiadau yn eu grŵp ffrindiau neu newidiadau mewn amgylchiadau o fewn y teulu. Mae ymchwil hefyd yn dangos y gall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACES) effeithio ar y ffordd mae plentyn yn ymddwyn wrth iddynt geisio gwneud synnwyr o'r byd o'i gwmpas. Mae hyn yn ei gwneud hi'n bwysicach fel ysgol ein bod ni'n adeiladu'r perthnasoedd ymddiriedus hynny gyda phlant a theuluoedd i helpu i ddatblygu dealltwriaeth o unrhyw lwybr sy'n achosi ymddygiadau penodol er mwyn cymryd agwedd gyfannol a chefnogol at reoli ymddygiad aflonyddgar. Gofynnwn i rieni gyfathrebu gyda'r ysgol unrhyw newidiadau y maent yn ymwybodol ohonynt a all achosi unrhyw ofid i'r plentyn. Yn aml gall hyn fod yn rhywbeth unigol i blentyn gan fod pob plentyn yn unigryw ac yn ymateb yn wahanol i sefyllfaoedd a digwyddiadau. Bydd hyn yn helpu'r athro i roi cymorth ychwanegol i'r plentyn lle bo angen a darparu cyd-destun i unrhyw ymddygiad a allai fod yn wahanol i'w gymeriad arferol.

1.5 Fel ysgol rydym yn cydweithio gyda'r plant i osod ein ffiniau ar gyfer ymddygiad a rheolaeth. Mae'r polisi ymddygiad wedi'i gynllunio i hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu ffynnu mewn amgylchedd diogel.

1.6 Ein ffiniau ysgol ydy:

- Ymdrechwn i siarad Cymraeg.
- *We will try our very best to speak Welsh.*

- Byddwn yn gwrtais i'n cyfoedion ac i'r oedolion yn yr ysgol.
- *We will be polite to our peers and adults in school.*

- Cofiwn i drin holl offer yr ysgol yn ofalus.
- *We will remember to treat all school equipment correctly and safely.*

- Byddwn yn cofio i beidio dod ag eitemau peryglus i'r ysgol.
- *We will not bring dangerous items to school.*

- Byddwn yn dilyn rheolau gwisg ysgol a gwisg ymarfer corff.
- *We will follow the school rules for school uniform, including P.E uniform.*

- Byddwn yn aros ar dir yr ysgol lle byddwn ni'n ddiogel.
- *We will stay on school site where we are safe.*

1.7 Bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu ar draws yr ysgol ac ni fydd yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un waeth beth fo'u hoedran, rhyw, anabledd neu unrhyw nodwedd warchodedig arall.

1.8 Fel ysgol rydym yn addasu ethos o atgyfnerthu cadarnhaol yn seiliedig ar adeiladu cysylltiad â phlant trwy feithrin rhyngweithio, modelu rôl gadarnhaol, darparu goruchwyliaeth, strwythur a ffiniau sydd i gyd yn helpu plant i deimlo'n ddiogel.

## 2 <u>Gwobrwyo a Gweithredu Pellach</u>

2.1 Rydyn ni'n canmol ac yn gwobrwyo disgyblion am ymddwyn yn bositif:

2.2 Rydym yn canmol a gwobrwyo disgyblion am ddilyn ffiniau ein hysgol. Er enghraifft, gall disgyblion ennill pwyntiau Dojo am ddangos parch, cwrteisi a charedigrwydd neu am ymdrechu gyda'u gwaith.

2.3 Rydym yn cydnabod ymdrechion a chyflawniadau disgyblion, o fewn a thu allan i'r ysgol. Dathlwn gyflawniadau'r disgyblion yn ein Gwasanaethau. Gwobrwywn unigolion am fod yn ddysgwr yr wythnos, i'r dysgwr sydd wedi casglu'r mwyaf o bwyntiau Dojo yn eu dosbarth ac i ddisgyblion sy'n gwneud ymdrech ychwanegol i siarad Cymraeg gyda'r dystysgrif 'Cymraeg Campus'. Yn ogystal, mae gennym Gaffi Clod yn wythnosol sy'n dathlu ymhellach disgyblion sy'n dilyn ffiniau'r ysgol yn gyson.

2.4 Mae ap Class Dojo yn helpu i arddangos cyflawniadau disgyblion yn yr ysgol gyda rhieni a gofalwyr ac yn helpu i adeiladu perthnasoedd positif rhwng yr ysgol a'r cartref.

2.5 Fel ysgol, ymfalchïwn yn y berthynas agos sydd gan staff a disgyblion. Mae cryfder y perthnasoedd hyn yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o ein disgyblion yn ogystal ag unrhyw anawsterau sydd ganddynt a all effeithio ar eu hymddygiad. O'r herwydd, gall staff fabwysiadu dull gwahanol o reoli ymddygiadau rhai plant yn unol â chyngor arbenigol neu gynlluniau cymorth.

2.6 Pan fydd ymddygiad plentyn yn aflonyddgar neu ddim yn cyd-fynd â'n ffiniau cytûn, byddwn yn defnyddio'r camau canlynol fel cam cychwynnol i ddelio â'r ymddygiad:

- Bydd staff yr ysgol yn canmol ymddygiad positif eraill yn y gobaith o fodelu ymddygiad da i eraill sydd angen cymorth.

- Os oes angen strategaeth arall i godi safonau ymddygiad unigolyn, bydd yr athro yn atgoffa'r disgybl ar lafar o'r ymddygiad sydd eu hangen yn yr amgylchiadau sydd ohoni.

- Pe bai'r athro yn teimlo fod angen cefnogaeth bellach i gefnogi ymddygiad unigolyn, byddwn yn gweithredu ymhellach er mwyn cynnal rheolau'r ysgol, ac er mwyn sicrhau awyrgylch dysgu ddiogel a chadarnhaol.

- Os nad ydynt yn gallu canolbwyntio neu wrando, gall aelod o staff gofyn iddynt symud sedd er mwyn bod mewn lle gwell i ganolbwyntio/gwrando.

- Os yw disgybl yn bygwth disgybl ar lafar neu yn gorfforol – pan fydd hi'n addas, bydd yr athro/athrawes yn cynnal Triongl Trafod (Dull Adferol) i drafod gyda'r holl ddisgyblion sydd ynghlwm. Yn dilyn y sgwrs, bydd yr athro yn cofnodi'r digwyddiadau sylweddol ar EduKey/MyConcern a byddwn yn gweithredu'n bellach i gefnogi'r disgybl sydd wedi profi ymddygiad negyddol yn ogystal â'r disgybl sydd wedi cam ymddwyn. Os yw disgybl yn parhau i ymddwyn mewn ffordd sy'n tarfu ar, neu'n achosi pryder i eraill, bydd yr ysgol yn cysylltu gyda'r rhieni ac yn trefnu amser addas i drafod y sefyllfa, er mwyn gallu gwella ymddygiad y disgybl.

- Os yw ymddygiad disgybl yn heriol iawn ac yn gosod pobl eraill mewn perygl, bydd yr athro/athrawes ddosbarth yn dod a'r wers/ gweithgaredd i ben yn syth ac yna gofyn i blant y dosbarth ac i aros mewn man diogel. Yna, bydd yr athro/ athrawes yn cysylltu gydag aelod o'r Uwch Dîm Reoli bydd yn cefnogi. Yn ddibynnol ar allu'r disgybl i bwyllo a chydymffurfio, bydd y disgybl yn ymweld ac ystafell tawel i drafod a myfyrio. Pe bai'r disgybl yn cael anhawster i bwyllo a chydymffurfio, bydd galwad yn cael ei gwneud i rieni/ gwarcheidwaid y disgybl am gefnogaeth.

2.7 Nid ydym fel ysgol yn fodlon dioddef unrhyw fath o fwlio (cewch hyd i bolisi gwrth-fwlio'r ysgol ar ein wefan). Os byddwn yn darganfod bod gweithred o fwlio wedi digwydd, byddwn yn gweithredu'n syth er mwyn atal unrhyw barhad o fwlio.


2.8 Mae'r holl aelodau o'r staff yn ymwybodol o'r rheolau ynglŷn â defnydd athrawon o rym corfforol, fel y maent yn ymddangos yn y 'The Use of Force to Control or Restrain Pupils, the powers of which are contained in Section 93 of the Education and Inspections Act 2006'. Mae'r staff yn ymyrryd yn gorfforol yn unig er mwyn atal disgybl, neu er mwyn arbed disgybl rhag niwed, neu er mwyn rhwystro disgybl rhag niweidio ei hun neu eraill. Mae ein dulliau o weithredu yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.


## 3 <u>Rôl Athrawon Dosbarth</u>

3.1 Mae'r athrawon dosbarth yn dilyn y ffiniau a'r canllawiau a benderfynwyd gan ein cyngor ysgol. Mae'r siart gwobrau a'r ffiniau isod.

3.2 Mae athrawon dosbarth yn trin pob disgybl yn deg ac yn gweithredu côd y dosbarth gyda chysondeb. Maent yn trin y disgyblion gyda pharch a dealltwriaeth.

3.3 Mae'r athrawon dosbarth yn adrodd yn ôl i rieni ynglŷn â datblygiad disgyblion, yn unol â pholisi'r ysgol gyfan. Gall yr athrawon dosbarth gysylltu â rhiant os oes gofid arbennig am ymddygiad neu les disgybl.




## 4 **Rôl y Pennaeth**

4.1 Cyfrifoldeb y pennaeth, yn ôl Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, yw gweithredu polisi ymddygiad yr ysgol mewn ffordd gyson ar hyd yr ysgol, ac adrodd yn ôl i lywodraethwyr, yn ôl y gofyn, ar effeithiolrwydd y polisi. Cyfrifoldeb y pennaeth hefyd yw diogelu iechyd, diogelwch a lles yr holl blant.

4.2 Mae'r pennaeth yn cefnogi'r staff wrth iddynt weithredu'r polisi, ac wrth osod safonau ar gyfer ymddygiad.

4.3 Mae'r pennaeth yn cofnodi unrhyw ddigwyddiad difrifol o gam-ymddygiad.

4.4 Cyfrifoldeb y pennaeth yw gosod gwaharddiad dros dro ar blentyn mewn ymateb i gam-ymddygiad difrifol. Pan fydd enghreifftiau parhaus o gam-ymddygiad difrifol, gall y pennaeth eithrio disgybl yn llwyr. Rhaid hysbysu'r corff llywodraethol cyn y gall y camau yma ddigwydd.

## 5 **Rôl Rhieni/ Gwarcheidwaid**

5.1 Mae'r ysgol yn cyd-weithredu gyda rhieni a gwarcheidwaid, er mwyn sicrhau bod cysondeb yn y wybodaeth ynglŷn â disgwyliadau ymddygiad yn y cartref a'r ysgol.

5.2 Rydyn ni'n esbonio'r rheolau yn Prosbectws Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes, a disgwyliwn i rieni eu darllen a'u cefnogi.

5.3 Rydyn ni'n disgwyl i rieni gefnogi addysg eu disgyblion, a chyd-weithredu gyda'r ysgol, yn unol â'r cytundeb ysgol-cartref. Rydyn ni'n ceisio creu deialog gadarnhaol rhwng yr ysgol a'r cartref, a rhoi gwybod i rieni'n syth os ydym yn poeni am les neu ymddygiad eu disgybl.

5.4 Os oes rhaid i'r ysgol ddefnyddio gweithredu ymhellach i gosbi disgybl, dylai'r rheini ein cefnogi. Os yw'r rhieni'n gofidio am y ffordd y mae eu disgybl yn cael ei drin/thrin, dylent gysylltu gyda'r athro/athrawes dosbarth. Os yw'r gofid yn parhau, dylent gysylltu gyda'r Pennaeth. Os yw'r gofid yn parhau, dylent gysylltu gyda'r Llywodraethwyr. Os nad yw'r trafodaethau yn llwyddo i leddfu'r gofidiau, gellir cychwyn ar broses ffurfiol o gŵyn ac apêl.

## 6 <u>Rôl y Corff Llywodraethol</u>

6.1 Mae Adran 61 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau bod ei ysgol yn dilyn polisïau a luniwyd i hybu ymddygiad cadarnhaol. Y corff llywodraethol sy'n gyfrifol am osod y canllawiau cyffredinol ynglŷn ag ymddygiad a disgyblaeth ac am adolygu eu heffeithiolrwydd. Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth yn ei rôl o weithredu'n canllawiau.

6.2 Mae gan y pennaeth yr hawl o ddydd i ddydd i weithredu'r polisi ymddygiad a disgyblaeth, ond gall y llywodraethwyr gynghori'r pennaeth ynglŷn â materion penodol. Rhaid i'r pennaeth ystyried hyn wrth ddod i benderfyniadau am faterion disgyblu.

## 7 <u>Eithrio Dros Dro ac Eithrio'n Barhaol</u>

7.1 Y pennaeth (neu'r pennaeth dros dro) yw'r unig un sydd â hawl i weithredu gwaharddiad o'r ysgol. Gall y pennaeth weithredu eithriad dros dro ar un achlysur neu rhagor, hyd at 45 diwrnod mewn un blwyddyn ysgol. Gall y pennaeth hefyd eithrio disgybl yn barhaol. Gall y pennaeth hefyd newid eithriad dros dro i eithriad llawn, os yw'r digwyddiad yn deilwng o hynny.

7.2 Os yw pennaeth yn eithrio disgybl, rhaid hysbysu'r rhieni neu'r gwarcheidwaid yn syth o'r rhesymau am yr achos o eithrio. Ar yr un pryd, bydd y pennaeth yn dweud yn glir wrth y rhieni/ gwarcheidwaid eu bod yn gallu, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, apelio yn erbyn y penderfyniad i'r corff llywodraethol. Mae'r ysgol yn hysbysu'r rhieni sut y gallant wneud hynny.

7.3 Mae'r pennaeth yn hysbysu'r AALl a'r corff llywodraethol os yw'r eithrio yn barhaol, neu os yw'r eithrio am gyfnod mwy na 5 diwrnod mewn unrhyw dymor.

7.4 Nid yw'r corff llywodraethol yn gallu eithrio disgybl nac ymestyn cyfnod yr eithrio a benderfynwyd gan y pennaeth.

7.5 Mae pwyllgor disgyblaeth gan y corff llywodraethol, yn cynnwys rhwng 3 a 5 aelod. Mae'r pwyllgor yn ystyried unrhyw apeliadau ar ran y corff llywodraethol.

7.6 Pan fydd pwyllgor apêl yn cwrdd, byddant yn ystyried y digwyddiad a arweiniodd at yr eithrio, byddant yn ystyried sylwadau'r rheini neu'r AALl, a byddant yn ystyried a ddylid dileu'r eithrio.

7.7 Os yw'r panel apêl yn penderfynu y dylid dileu'r eithrio, rhaid i'r pennaeth gydfynd â'r penderfyniad.

## 8 Digwyddiadau yn Ymwneud ag Alcohol a Cham-ddefnyddio Sylweddau/Cyffuriau

8.1 Polisi'r ysgol yw na ddylai unrhyw blentyn ddod a chyffur, cyfreithiol neu anghyfreithiol, i'r ysgol. Os bydd disgybl angen meddyginiaeth yn ystod diwrnod ysgol, dylai'r rhiant/warcheidwad roi gwybod i'r ysgol a gofyn am ganiatâd i ddod â'r feddyginiaeth. Dylid mynd â'r feddyginiaeth yn syth i'r swyddfa er mwyn ei gadw'n ddiogel. Os bydd disgybl angen cymryd unrhyw feddyginiaeth yn ystod y diwrnod ysgol dylai hynny ddigwydd dan oruchwyliaeth athro neu oedolyn sy'n gweithio yn yr ysgol.

8.2 Os oes achos o gam-drin unrhyw sylwedd e.e. glud, solfent neu alcohol, bydd yr ysgol yn trin y mater fel peth difrifol iawn. Bydd rhieni/gwarcheidwaid disgybl cael eu hysbysu bob tro. Os bydd disgybl yn fwriadol yn dod a sylweddau i'r ysgol gyda'r bwriad o'u camddefnyddio byddwn yn gweithredu'n bellach trwy roi eithriad tymor penodol. Os bydd y drosedd yn cael ei hailadrodd, bydd y disgybl yn cael ei ddiarddel yn barhaol, a bydd yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hysbysu.

8.3 Os darganfyddir bod disgybl yn dioddef o ganlyniad i gamddefnydd alcohol neu sylweddau eraill, fe wneir trefniadau i fynd â'r disgybl adref.

8.4 Gwaherddir i unrhywun, yn oedolyn neu'n blentyn, ddod â sylweddau anghyfreithiol i dir yr ysgol. Os darganfyddir bod disgybl wedi dod ag unrhyw fath o sylwedd anghyfreithiol i dir yr ysgol caiff ei gosbi gan waharddiad dros dro. Ni fydd y disgybl yn cael dychwelyd i'r ysgol hyd nes y bydd rhiant/gwarcheidwad wedi ymweld â'r ysgol er mwyn trafod difrifoldeb y mater gyda'r pennaeth.

8.5 Os bydd y drosedd yn cael ei hailadrodd, bydd y disgybl yn derbyn diarddeliad parhaol.

8.6 Os darganfyddir bod disgybl wedi dod â sylweddau anghyfreithiol i'r ysgol yn fwriadol, ac os yw'n eu dosbarthu i ddisgyblion eraill am arian, bydd y disgybl cael ei ddiarddel yn barhaol o'r ysgol. Bydd yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hysbysu.

## 9 Monitora

9.1 Mae'r pennaeth yn monitora effeithiolrwydd y polisi yn gyson. Mae'n adrodd yn ôl i'r corff llywodraethol, ac yn argymell gwelliannau pan fydd angen.

9.2 Mae'r ysgol yn cadw cofnod o ddigwyddiadau mewn sawl ffordd. Mae'r athrawon dosbarth yn cofnodi digwyddiadau ar Edukey (Meeting Logs) ac ar MyConcer. Mae gan yr holl staff mynediad I'r cofnodion yma. Rydyn ni hefyd yn cofnodi achosion sy'n digwydd yn yr awr ginio neu amser chwarae.

9.3 Mae'r pennaeth yn cadw cofnod o unrhyw ddisgybl sy'n cael ei eithrio am gyfnod dros dro neu yn barhaol.

9.4 Cyfrifoldeb y corff llywodraethol yw monitora'r nifer o achosion o eithrio, er mwyn sicrhau bod polisi'r ysgol yn cael ei weithredu'n deg ac mewn modd gyson.

9.5 Cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw monitro cyfradd gwaharddiadau a diarddeliadau, er mwyn sicrhau bod polisi'r ysgol yn cael ei gweithredu'r deg ac yn gyson. Bydd y corff llywodraethu yn talu sylw arbennig i faterion o gyfartaledd hiliol. Bydd yn sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn cael ei drin yn annheg o ganlyniad i'w hil neu ei gefndir ethnig.

## 10 Adolygu

10.1 Mae'r corff llywodraethol yn adolygu'r polisi bob dwy flynedd. Ond, gall y llywodraethwyr adolygu'r polisi yn amlach os yw'r llywodraeth yn cyflwyno rheolau newydd, neu os yw'r corff llywodraethol yn derbyn argymhelliad ar sut y gellir gwella'r polisi

Pennaeth ___________________________

Cadeirydd y Corff Llywodraethol ___________________________